**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

**Friends of National Museum Wales**
Cathays Park, Cardiff CF10 3NP

# Dydd Sadwrn 15 Medi 2018

### Am 10.30 yb yn Narlithfa Reardon Smith, Parc Cathays, Caerdydd

## 'Yng nghwmni Syr Kyffin Williams o Gader Idris i gamlesi Fenis'

## Sgwrs gan David Meredith

A Chymru yn dathlu canmlwyddiant ei harlunydd mwyaf llwyddiannus a chynhyrchiol, Syr Kyffin Williams, RA, eleni, bydd David Meredith, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Syr Kyffin Williams, yn talu teyrnged i'w arwr, Syr Kyffin - John Kyffin Williams - neu, i ddefnyddio ei hoff enw iddo'i hun, yn syml iawn, 'Kyffin.'
Ganwyd Syr Kyffin yn Llangefni, Sir Fôn, ym 1918, ac yn ystod ei fywyd hir, cwblhaodd Syr Kyffin filoedd o luniau mewn cyfnod yn ymestyn dros 60 mlynedd.
Bu Kyffin yn arlunio ar raddfa helaeth yng Nghymru, Yr Alban, Iwerddon a Lloegr, a hefyd yn yr Eidal, yn Ffrainc, gwlad Groeg ac yn Awstria, a gwneud ymweliad trawiadol ym 1968/69 i gofnodi pobl, tir, anifeiliaid a ffawna Patagonia - Y Wladfa yn Ne America.
Yn ei araith i Gymdeithas Cyfeillion yr Amgueddfa Genedlaethol, bydd David Meredith yn rhoi sylw arbennig i un o hoff leoliadau arlunio tramor, Kyffin - Fenis, y ddinas swynol y bu'r arlunydd yn ymweld â hi yn gyntaf ym 1950 ac am y tro olaf yn 2004, dwy flynedd cyn ei farwolaeth yn 2006.
Cafodd David Meredith y fraint o fynd gyda Kyffin ar ei ymweliad olaf â Fenis – ymweliad mae'n ystyried yn ddigwyddiad enfawr yn ei fywyd.
Gyda dau gasgliad helaeth o'i waith wedi eu rhoi gan Kyffin i Oriel Môn yn Llangefni ac i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, mae Syr John Kyffin Williams RA yn cael ei gydnabod fel un o gymwynaswyr mwyaf Cymru.

Y tâl mynediad, i gynnwys coffi a bisgedi ar ôl y sgwrs, yw £8 i'r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, a £10 wrth y drws. Er mwyn manteisio ar y pris gostynedig hwn, llenwch y daflen isod a'i hanfon erbyn **Dydd Mercher, 12 Medi 2018** gyda'r siec at Kathleen Jones, 18 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6EG [ ffôn: 029 20627897]. I arbed costau postio, ni fydd cydnabyddiaeth. Gan fod y digwyddiad yn agored i'r cyhoedd am £10 y pen mae 'na groeso cynnes i bawb.

---

**Cyfeillion Amgueddfa Cymru: Sgwrs gan David Meredith**
**'Yng nghwmni Syr Kyffin Williams o Gader Idris i gamlesi Fenis'**
**Dydd Sadwrn 15 Medi 2018 am 10.30 yb Darlithfa Reardon Smith, Parc Cathays, Caerdydd**

Carwn i chi gadw …… le/lle ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec £ …………………

[yn daladwy i Cyfeillion Amgueddfa Cymru].

Enw/au ……………………………………………………………………………………………………….

Cyfeiriad a chod post ………………………………………………………………………………….

Ffôn ……………………………………………………. Ebost …………………………………………….

☐ Cadarnhaf fy/ein [h]aelodaeth gyfredol o Gyfeillion Amgueddfa Cymru

**Registered Charity No. 701990**
**Elusen Gofrestrig Rhif 701990**